Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | W Evans | L S Gibbard |
| S M Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Ian Davies | Arweinydd Tîm Ardal |
| Sally-Ann Evans | Uwch-gyfreithiwr |
| Andrew Ferguson | Principal Planning Officer |
| Amanda Pugh | Uwch-beiriannydd |
| Ryan Thomas | Rheolwr Rheoli Cynllunio |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson

---

## 10 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 11 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2019 fel cofnod cywir.

## 12 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd cymeradwyo'r** cais cynllunio isod yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad a/neu'r hyn a nodir isod (#):
**#(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2019/0911/S73 - datblygiad preswyl sy'n cynnwys man agored cyhoeddus a ffyrdd mynediad newydd o Heol Gower View a Heol Brynafon (amlinelliad) (amrywiad ar amodau 1, 3 a 4 caniatâd cynllunio 2005/2355 a roddwyd ar 23 Ebrill 2010) i estyn y cyfnod amser i gyflwyno**

**<u>Materion a Gadwyd yn Ôl am weddill y safle'n unol â'r Datganiad Dylunio a Mynediad diwygiedig a'r Uwch-gynllun ar dir i'r gorllewin o Heol Gower View ac i'r gogledd o Heol Brynafon, Penyrheol, Abertawe</u>**

Anerchwyd y pwyllgor gan Graham Howells (gwrthwynebydd) a Phil Baxter (asiant).

Anerchodd y Cynghorydd J P Curtice (aelod lleol) y pwyllgor a chyfeiriodd at ei phryderon ynghylch yr angen i gynnal man agored ar y datblygiad a chadw'r ardal chwarae a ailwampiwyd yn ddiweddar, gan gynnwys adleoli'r wifren sip.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Mae ecolegydd y cyngor wedi cynnal asesiad o effaith arwyddocaol debygol y datblygiad arfaethedig ar safleoedd Ewropeaidd a warchodir. Daw'r asesiad i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar y safleoedd a warchodir.

Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y SoDdGA, dylid diwygio amod 26 rhan viii) i ddweud:
'viii) yr oll fesurau atal llygredd sy'n ymwneud â chyrff dŵr gerllaw, yn enwedig o ran ACA Bae a Morydau Caerfyrddin ac AGA Moryd Burry, a SoDdGA Moryd Llwchwr a Chasllwchwr (gan gynnwys mesurau lliniaru a gwella a argymhellwyd yn Adran 2 yr Asesiad o Effeithiau Datblygu Ecolegol a'r Adroddiad Cynigion Lliniaru a baratowyd gan Hawkeswood Ecology ym mis Mehefin 2019), a '

**Cymeradwywyd** y cais yn amodol ar **weithred amrywio ar gyfer y cytundeb S106** yn unol â'r argymhelliad ac yn amodol ar y diwygiad uchod i amod 26.

**13 Cais cynllunio Cyf: 2019/1232/106 a 2018/2671/S73 - Adeiladu 80 Rhif unedau preswyl gyda mynediad cysylltiedig a thirlunio**
**Cyn safle'r Ganolfan Ddinesig, Penllergaer.**

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad a oedd yn amlinellu'r cais gan yr ymgeisydd (Enzo Homes) i addasu'r ymgymeriad unochrog a wnaed yn unol ag Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) i ddatblygu ar hen safle'r Ganolfan Ddinesig, Penllergaer.

Amlinellwyd a manylwyd ar y manylion cefndir, yr ymgynghoriad a wnaed a'r prif faterion yn codi o'r cais yn yr adroddiad.

Siaradodd y Cynghorydd E W Fitzgerald (Aelod Lleol) mewn perthynas â'r cais a chefnogodd argymhelliad y swyddogion i'w wrthod.

**Penderfynwyd** gwrthod y cais i addasu'r ymgymeriad unochrog i'r weithred amrywio (rhwymedigaeth cynllunio).

Daeth y cyfarfod I ben am 2.41 pm

**Cadeirydd**